



Dysgwyr : Ysgol arloesol ydy'r ysgol dan sylw, sy'n arwain ar gynllunio a datblygu'r cwricwlwm newydd. Mae'n gweithio'n frwd gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion arloesol eraill, i sicrhau addysg o safon. Mewn datganiad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru, amlinellwyd y cynllun a bennwyd gan yr Athro Graham Donaldson. Credai bod dyfodol llwyddiannus wrth “ffocysi ar sgiliau bywyd, hyder personol, sgiliau sylfaenol, sgiliau gwaith, cyngor gyrfa a iechyd a lles.” (llyw.cu,ru/dyfodol llwyddiannus-adroddiad-athro-graham donaldson) Wrth wraidd y cwricwlwm newydd, dlai'r pedwar diben yma fod yn sail i'r holl addysgu a dysgu, gan ganolbwyntio ar:

GWE (2015)



Halalova R. (2018)

Mae'r adroddiad yn nodi i gael y Chwe Maes Dysgu a Phrofiad sydd yn cefnogi y pedwar diben y cwricwlwm megis:



Pwyslais mawr ar gyfer y dysgwyr ydy datblygu sgiliau oes bywyd fodern gan ganolbwyntio ar y sgiliau: Llythrennedd, Rhifedd,

Cymhwysedd Digidol

GWE (2015)

LLAIS Y DISGYBL : Mae llais y disgybl yn bwysig iawn i fywyd yr ysgol hon, ac mae hyn yn caniatáu'r disgyblion i berchnogi'r hyn maent yn eu dysgu. Dywed Estyn (2018) “Mae'r athrawon yn ystyried barn disgyblion yn briodol wrth gynllunio themâu diddorol, ac yn sicrhau bod y gweithgareddau'n gyson dda.”

Cynghorau - Cryfder mawr yr ysgol hon yw Llais y disgybl, a gwelir y llais yma'n treddu trwy fywyd ysgol yn gyffredinol. Mae'n ymfalchio gyda chynghorau amrywiol a hawliau plant. Barn a phenderfyniadau'r disgyblion sy'n dod trwyddo, gydag arolygiad Estyn yn datgan bod y disgyblion “yn cyfrannu'n effeithiol i holl gynghorau'r ysgol ac ym ymfalchio yn y cyfle i ddatblygu eu medrau arwain” (Estyn, 2018)

Wrth ddilyn yr holl dulliau yma, mae'n gwneud i'r dysgwyr fod yn ganolog i ddatblygiad cwriwlaidd, gyda'r nod i ddatblygu annibynedd. Mae'n gwneud i'r dysgwr fod yn weithredol gan ffocysi ar sgiliau bywyd. Y dysgwyr syn cael dewis yr hyn maen't am ddysgu, sut i fynd ati i ddysgu, a sut mae asesu dysgu eu hunain.



Technoleg Fodern

Deallai'r ysgol hon y pwyslais sydd ar Dechnoleg Fodern gan ei ddefnyddio “fel arf addysgu cryf trawsgwricwlaidd.” Mae ganddi Clwb TGCh brwdfrydig gyda grwp etholedig - Dewiniaid Digidol sydd yn awchus i wellau'u sgiliau digidol. (Gwefan yr ysgol (2018))



Dechrau Wrth Fy Nhraed

Gweledigaeth yr ysgol hon yw “creu awyrgylch cariadus a chefnogol sydd yn darparu ar gyfer anghenion ysbrydol, moesol, diwylliannol meddyliol a chorfforol pob plentyn” (Gwefan yr ysgol (2018))

Ysgol Categori Cefnogaeth yn wyrd.	Barn Arolygiaeth Estyn (2018) am yr ysgol yn ‘Dda’
--	--

Lleoliad

Ysgol Gynradd Gymunedol ydy'r ysgol hon sydd wedi ei leoli ar gyrion Sir Abertawe. Er ei fod yn ysgol pentrefol, mae'r disgyblion yn dod o nifer o ardaloedd o fewn dinas Abertawe. Mae hon yn ardal ddi-freintiedig gyda chanran diweithdra'n uchel gan fod o dan anfantais economaidd.

Yn bresennol mae yna 517 o blant ar y gofrestr, sy'n cynnwys disgyblion y Cyfnod Meithrin. Er mai ysgol benodedig gymraeg yw'r ysgol, canran isel iawn o 10% sydd o gartrefi cymraeg, gydag ychydig yn dod o gefndiroedd ethnig. Ond erbyn diwedd oed cynradd, bydd pob disgybl yn ddwyieithiog. Cyfartaledd disgybl i athro ydy 27.3:1, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol sy'n 22.0:1. Ar hyn o bryd, rhennir y dosbarthiadau i 19 dosbarth, gyda 20 o athrawon llawn amser a dau sy'n rhan amser. (Locrating 2020)

Yn awr, mae 10 o Ysgolion benodedig Gymraeg yn Awdurdod Sir Abertawe gyda rhifau'n cynyddu. Dangosai hyn bod cynnydd mewn addysg Gymraeg. (Cyngor Abertawe 2020). Mae'r Cymraeg yn cael ei weld fel “laith Pawb”, sydd hefyd yn nodi bod darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg mewn ysgolion yn flaenoriaeth. Coupland, N. and Aldridge, M. (2009) tud 1). Ar hyn o bryd mae canran yr anghenion dysgu ychwanegol yn 21% sydd yn agos o'i gymharu â chanran cenedlaethol Cymru o 22%. (Locrating 2020)

Dywed Adolygiad Estyn (2018) bod “systemau cadarn yn eu lle, gan ddarparu cefnogaeth effeithiol ac ymyraethau priodol.” Er nad ydy hon yn ardal ffyniannus, dim ond 6.8% sy'n deilwng i brydiau am ddim, sy'n tipyn yn is na'r canran cenedlaethol o 21% (Locrating 2020)


laith a Diwylliant

Mae'r ysgol yma'n ymfalchio yn yr iaith Gymraeg, ac yn falch o hyrwyddo Cymreictod ar bob achlysur. Trefnir ymweliadau i wahanol lefydd yng Nghymru gan hybu hunaniaeth, hanes a diwylliant Cymreig. Mae'r ysgol yn falch i “ddatblygu dinasyddion egwyddorol Cymru a'r byd”. (Gwefan yr ysgol 2018)



Y Gymuned / Perthynas gyda'r Gymuned : Yn sicr mae cysylltiadau cryf rhwng ysgol 'r gymuned yn amhrisiadwy. Gwelir y cysylltiadau yma'n codi safonau addysgiadol a dyheuadau'r plant a'r rhieni. Mae'r ysgol prysur hon wedi buddsoddi i greu partneriaeth cryf gyda'r gymuned ac mae'r plant wedi elwa'n sylweddol o'r profiadau. Dywed adroddiad Estyn (2018) “Mae'r ysgol yn weithgar iawn yn yr ardal leol a'r gymuned ehangach. Mae'r disgyblion yn datblygu ymdeimlad cryf o berthyn i'w cymuned.” Dangosai'r disgyblion balchder am eu cymuned gan gefnogi digwyddiadau arbennig a pherfformio i amrywiaeth eang o gyngorddau a digwyddiadau gan ddangos eu doniau gwyb. Mae llwyddiant yn y maes Celfyddydau Mynegiannol yma'n tynnu'r gymdeithas, y gymuned, cefnogaeth y rhieni a'r ysgol yn agos iawn sy'n cefnogi theori Dr Epstein o bartneriaeth agos rhwng yr ysgol, teulu a'r gymuned gyda'r plentyn yn ganolog iddi.

‘Damcaniaeth Adeileddol Gymdeithasol’ - Damcaniaeth pwysig arall ydy un gan y seicolegydd Vygotsky. Mae ei theori'n cefnogi i ysgolion rhyngweithio'n gymdeithasol a gydag oedolion mwy gwybodus gan fod hyn wedi profi i wella dealltwriaeth y plant (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2018) Un o nodau clir sy'n cael ei nodi gan yr ysgol ydy ‘bod awyrgylch agored glos sy'n cynnwys rhieni a'r gymuned’ ac mae hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn a moesau i blant am y lle maen't yn byw. Profai'r ysgol bod cryfhau cysylltiadau lleol yn creu unigolion iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd gan wireddu eu dyheadau fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas.



(Feasey 2017)

Cyswllt Ysgol / Adre

Pwysleisir bod perthynas rhwng y rhieni a'r ysgol yn un pwysig iawn er mwyn sicrhau datblygiad a llwyddiant y disgyblion. Mae'r ysgol yn dangos polisi drws agored, sy'n annog rhieni i rannu unrhyw ofidion sydd yn peri pryder am gynnydd neu lles eu plentyn. Man cychwyn yr ysgol ydy creu cyfleoedd ble gall y rhieni a'r athrawon ddangos taw diddordeb y plant sydd bennaf pwysig. (Williams 2020)


Teimlai'r ysgol bod meithrin cydberthnasau da a chadarn gyda'r cartref yn bwysig. Mae hyn wedi profi bod y disgyblion yn dangos gwell ymddygiad, presenoldeb, ac awydd i ddysgu, gan arwain at ganlyniadau gwell. Mae gan yr ysgol gytundeb gyda'r cartref, sy'n nodi'n glir yr hyn sy'n ddisgwyliedig o'r disgyblion a'u rhieni. Danfonir y cytundeb holl bwysig yma adref yn flynyddol ac mae'n bwysig bod yr athro, rhiant neu'r gwarcheidwad, a'r disgybl yn arwyddo'r cytundeb hwn. Wrth sicrhau cyswllt cryf rhwng yr ysgol a'r cartref, fe ellir herio'r gorau o pob disgybl, gan ystyried eu hil, dosbarth a diwylliant, a fydd o ganlyniad yn arwain iddynt gyrraedd eu llawn-botensia. (Williams 2020)

“EDUTOPIA= the home-school team - An emphasis on parent involvement” (Comer, Haynes 1997)

Yn sicr, mae'r byd dechnolegol yn caniatáu i addysgwyr gael perthynas dda a gwybodus gan rieni. Gall ysgolion a chartrefi cael eu cysylltu trwy rhwydweithiau cyfrifiadurol, gan rannu a danfon negeseuon.

Damcaniaethwyr

Mae profiadau plentyn yn y cartref, yr ysgol, a'r gymuned ehangach yn cael effaith mawr arnynt. Damcaniaeth pwysig yn natblygiad plentyn ydy theori Bronfenbrenner - sy'n cael ei drefnu mewn i bedwar strwythur rhyng-gysylltiedig. (Rosa. Tudge. 2013, (tud 4) Yr oedd yn dadlau bod amgylchedd plant wrth aeddfedu yn effeithio ar pob agwedd o'u bywyd. Dywed y theori yma bod amgylchedd cymdeithasol, a'u magwraeth yn cyfleu eu natur. Gwelir hyn yn thoeri system ecolegol Bronfenbrenner. Rhennir amgylchedd plentyn i bum lefel gwahanol. Felly, wrth gynllunio'r cwricwlwm newydd, rhaid sicrhau amgylchiadau ac anghenion yr unigolyn, er mwyn sicrhau datblygiad, a darparu'r gefnogaeth angenrheidiol yn yr ysgol ac adref. Wrth wneud hyn yn effeithiol, golygai bod pob plentyn yn cyrraedd eu llawn-botensial. Mae'r chwe maes dysgu yn sicrhau bod hyn yn digwydd a bod cyfleoedd gan blant.



WorldPress (2018)

Coupland, N. Aldridge, M., 2009. A critical approach to the revitalisation of Welsh. *International Journal of the Sociology of Language*, 2009(195), pp.5-13.

Cyngor Abertawe (2020) *Welsh-medium Education in Swansea* <https://swansea.gov.uk/welshmediumeducation#:~:text=There%20are%2010%20designated%20Welsh-medium%20primary%20schools%20in,secondary%20schools%20in%20Swansea%3A%20Welsh%20medium%20secondary%20schools>

Estyn (2018) *Adroddiad XX* https://www.estyn.llyw.cymru/system/files/2020-08/Ysgol%2520Gynradd%2520Gymraeg%2520L%25C3%25B4n%2520Las_0.pdf

GWE (2015) *Cwricwlwm i Gymru* <https://www.gwegogledd.cymru/wp-content/uploads/2018/02/Diweddariad-ar-Gwricwlwm-i-Gymru.pdf>

Gwefan yr ysgol (2018) <https://www.XX.co.uk>

H Willams (2020) - Profiad Pontio

Halalova R. (2018) *Literacy and numeracy across the curriculum* <https://eds101richardhalalova.files.wordpress.com/2018/07/bronfenbrenner.jpg?w=660>

J Comes , N Haynes (1997) *The Home-School Team: An Emphasis on Parent Involvement* <https://www.edutopia.org/home-school-team>

Llywodraeth Cymru (2018) <https://hwb.gov.wales/storage/0a6c9f32-6378-4192-889e-d0b6cd84b745/addysgeg-dysgu-ac-addysgu.pdf>

Locrating 2020 <https://www.locrating.com/schools-Ysgol-Gynradd-GymraegXX0wlsh6702036.aspx>

Rosa. E a Tudge. J, (2013) 'Urie Bronfenbrenner's Theory of Human Development: Its Evolution from Ecology to Bioecology' *Journey of Family Theory and Review* 5(4) tud 242-258

S. Feasey 2017 Schools, Families, and Community: Overlapping Spheres of Influence
<https://theroadlesstravelledby.com/2017/09/28/schools-families-and-community-overlapping-spheres-of-influence/>

THE OPTIMUS BLOG (2018) *Community in the school and school in the community*
<https://blog.optimus-education.com/community-school-and-school-community>